**Tasg 1**

# Chwysu peints!

## Dillad chwyslyd … dillad da!

Atebwch y cwestiynau yma:

1. Pa fath o arddull sydd i'r darn? (✓)
   - ☐ a. barddonol
   - ☐ b. tafodieithol
   - ☐ c. uniongyrchol
   - ☐ ch. ffurfiol

   Copïwch enghreifftiau o'r darn i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2. Beth yw pwrpas y darn? (✓)
   - ☐ a. beirniadu pobl am wisgo dillad chwyslyd
   - ☐ b. canmol pobl am wisgo gwahanol fathau o ddillad
   - ☐ c. rhoi gwybodaeth am ddillad y dyfodol
   - ☐ ch. perswadio pobl i brynu dillad arbennig

3. Ydy'r awdur ei hun yn credu bod dillad yn gallu "dweud llawer amdanoch chi?"

   Rhowch resymau dros eich ateb.

4. Disgrifiwch ryw achlysur pan oeddech chi wedi gwisgo dillad oedd yn hollol anaddas neu ddillad oedd yn hollol addas. Disgrifiwch yr achlysur a'r dillad wisgoch chi. Pam roedden nhw'n anaddas neu'n addas?

5. Pam gallai dillad y dyfodol fod yn bwysig, yn ôl yr awdur?

6. Beth yw'ch barn chi am hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.

7. Pa fath o ddillad fydd pobl yn eu gwisgo yn y dyfodol yn eich barn chi?

Ysgrifennwch ddarn i ateb y cwestiwn hwn a thynnwch lun rhai o’r dillad i fynd gyda’r darn ysgrifenedig.